Bydden ni'n gweithio ar hwn i'w wella -- synaid bras ar hyn o bryd

# 2023/2028

www.gwynedd.llyw.cymru

# Gwynedd 2023-28

**Mae Gwynedd a'i phobl yn groesawgar, yn fentrus ac yn arloesol. Mae'r ardal wedi gweld newidiadau sylweddol yn ei hanes, a does dim dwywaith y byddwn yn gweld newidiadau pellach yn y dyfodol.**





Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau dros y 5 mlynedd nesaf.

Rydym am sicrhau fod pobl Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib a byddwn bob amser yn eich rhoi chi gyntaf ym mhopeth a wnawn.

Ceir yma hefyd gipolwg ar yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor – gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn.

Gyda'n gilydd byddwn yn gwella cyfleon ein trigolion, cefnogi ein cymunedau, a datblygu'r ardal ar gyfer y dyfodol.



# Ein bwriad a'n uchelgais

**Yn dilyn ymgynghoriad eang gyda pobl Gwynedd fel rhan o gynllun Ardal Ni, ynghyd a nifer o drafodaethau ac adborth gan drigolion y sir a thu hwnt, lluniwyd cyfres o flaenoriaethau fydd yn caniatáu i ni gwrdd a'n uchelgais i ddatblygu gwasanaethau ac i ystyried dulliau newydd ac arloesol o ddelio a'r heriau fydd yn ein wynebu.**



Mae'r cynllun am y 5 mlynedd nesaf yn dilyn cyfres o brosiectau a luniwyd ar gyfer 2018-23.

Gyda'r pandemig yn gweddnewid bywydau pawb, bu raid i'r Cyngor ddargyfeirio llawer o'i adnoddau yn ystod y cyfnod hwn i ddelio gyda'r argyfwng.

Gwelwyd cydweithio arwrol yng Ngwynedd, gyda phawb yn ein cymunedau, ein busnesau, ein elusennau, a'n gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud popeth o fewn eu gallu i leddfu effaith y pandemig ar ein cymdeithas.

Bu'r cyngor yn darparu nifer o wasanaethau mewn dulliau hollol newydd, gyda'r defnydd o dechnoleg yn ganolog i'n ymateb.

Er gwaethaf y pandemig, mae mwyafrif y prosiectau a luniwyd yn y cynllun blaenorol wedi eu cyflawni, sy'n glod i'r holl staff fu'n gweithio'n ddiwyd i gynnal gwasanaethau mewn amgylchiadau anodd dros y blynyddoedd diweddar.

Mae rhai meysydd, fel yr economi wedi ei tharo'n galed, nid yn unig gan y pandemig, ond hefyd gan ffactorau eraill fel Brexit, ymosodiad Rwsia ar Wcrain a pholisi economaidd. Mae hyn wedi golygu nad ydi incwm gwirioneddol pobl Gwynedd wedi dal i fyny gyda chostau byw gwirioneddol.
Mae'r sefyllfa economaidd bresennol ym Mhrydain yn debygol iawn o arwain at doriadau i gyllidebau cynghorau, ac wrth i'r galw am ein gwasanaethau gynyddu bydd angen unwaith eto i ni ystyried dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau ynghyd a sut y gallwn gydweithio er mwyn sicrhau fod pawb yng Ngwynedd yn cael y gwasanaeth gorau posib.

Unwaith eto bydd angen i gymunedau Gwynedd sefyll gyda'i gilydd dros ein pobl a dros ein plant.

## Maes Blaenoriaeth

# Rhoi y cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc



Bydd pob plentyn yng Ngwynedd yn cael mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol fydd yn caniatáu iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyflawn, a bydd mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar gael drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.

Byddwn yn darparu’r addysg mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas, a bydd cefnogaeth broffesiynol ar gael i gwrdd ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd pob disgybl yn cael ei drin yn gyfartal ac mae eu llesiant a’u hapusrwydd bob amser ar frig ein rhestr blaenoriaethau.

Ein huchelgais yw rhoi’r gefnogaeth angenrheidiol i alluogi pob plentyn yng Ngwynedd gyflawni ei lawn botensial

**Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn**

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Sicrhau fod plant oed cynradd ac uwchradd yn cael cinio am ddim
- Moderneiddio adeiladau a ‘r amgylchedd dysgu
- Lleihau y gost o anfon plant i’r ysgol a delio gyda heriau llesiant
- Creu cynllun newydd i gefnogi plant gyda awtistiaeth
- Sefydlu cartrefi lleol i’n plant
- Datblygu cynllun ar gyfer meysydd chwarae plant

# Prosiectau

### Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r mudiad meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod yn yr ysgol.

### Cinio am ddim

Bydd holl blant y sir, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn cael cinio ysgol am ddim.

O ganlyniad, bydd angen i ni uwchraddio ein ceginau a'r mannau bwyta er mwyn ymdopi gyda'r niferoedd uwch fydd yn cymryd bwyd ysgol. Byddwn hefyd yn recriwtio mwy o staff er mwyn paratoi a gweini'r prydau ychwanegol.

### Moderneiddio ein adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Mae nifer o ysgolion y sir bellach yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, a byddwn yn datblygu prosiectau arbennig fel ysgolion ac adeiladau newydd pan fydd grantiau yn cael eu rhyddhau.

Rydym hefyd wedi dechrau ymgynghori ynglŷn ag addysg ôl-16 yn Arfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad dysgwyr yr ardal.

### Lleihau y gost o anfon plant i'r ysgol a delio gyda heriau llesiant

Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, tra'n gwarchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr mae ein plant yn gael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

Byddwn hefyd yn delio gyda materion llesiant ehangach sy'n effeithio plant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi.

### Cynllun Awtistiaeth

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.

### Sefydlu cartrefi lleol i'n plant

Rydym am geisio gwella profiadau plant gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir er mwyn cael cefnogaeth. Byddwn yn darparu cartref i grwpiau bychan o hyd ar bedwar plentyn, fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynd i ysgolion lleol, a chymryd rhan ym mywyd eu cymunedau.

### Datblygu cynllun ar gyfer meysydd chwarae plant

Mae trigolion y sir eisiau gweld cyfarpar chwarae o safon uchel ar gyfer ein plant. Byddwn felly yn cynnal ac yn gwella rhai meysydd chwarae, gan ganolbwyntio'r buddsoddiad er mwyn darparu gwell ansawdd ar nifer llai o feysydd chwarae.

